Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

1 Mai 2019

Annwyl Rebecca

Gorchmynion cychwyn

Yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2019, ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Orchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2019 a Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019.

O ran y Gorchymyn a grybwyllwyd yn gyntaf, nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7. Nodir y darpariaethau cychwyn yn erthygl 2 a'r Atodlen i'r Gorchymyn. Mae erthyglau 3 i 12 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed manwl. Mae'r Gorchymyn hwn yn dangos maint y darpariaethau hynny a all fod yn angenrheidiol wrth newid o un fframwaith deddfwriaethol i un arall. Mae'r Gorchymyn yn dangos ymhellach ehangder yr hyn sy'n ganiataol mewn Gorchymyn (yn rhinwedd y ddarpariaeth alluogi yn y rhiant-Ddeddf) nad yw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol na'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn unol ag argymhelliad ein pwyllgor rhagflaenol yn ei adroddiad etifeddiaeth, byddwn yn parhau i fonitro darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau dros dro neu ddarpariaethau trosiannol sydd wedi'u cynnwys mewn gorchmynion cychwyn.

O ran yr ail Orchymyn a grybwyllwyd, gwnaethom nodi bod y Gorchymyn yn dilyn y dilyniant a wnaed (25 Mawrth), y dyddiad cychwyn (1 Ebrill), ac yna'r dyddiad y gosodwyd ef gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (9 Ebrill). Mae gorchmynion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

cychwyn eraill a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dilyn dilyniannau gwahanol (gweler yr Atodiad i'r llythyr hwn).

Mae ein hystyriaeth o'r ddau orchymyn cychwyn hyn wedi ein harwain i gytuno i ofyn am eglurhad gennych ar brosesau Llywodraeth Cymru a'r dull gweithredu y mae wedi cytuno arno ar gyfer gorchmynion cychwyn. Wrth wneud hynny, rydym yn tynnu sylw arbennig at y Gorchmynion y sonnir amdanynt uchod ac yn yr Atodiad.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

Atodiad:

	Gwnaed	**Dyddiad Cychwyn**	**Gosodwyd gerbron y Cynulliad**
Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019	25 Mawrth 2019	Rhan 7 o Ddeddf 2017 - 1 Ebrill 2019	9 Ebrill 2019
Gorchymyn y Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2019	11 Ebrill 2019	Y Cod - 15 Ebrill 2019	12 Ebrill 2019
Gorchymyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2018	1 Mai 2018	Rhai adrannau o Ddeddf 2010 - 2 Mai 2018 Rhai adrannau o Ddeddf 2010 - 7 Ionawr 2019	11 Mai 2018
Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) 2018	19 Medi 2018	Rhai adrannau o Ddeddf 2015 - 22 Hydref 2018	24 Medi 2018